

BOREOL WEDDI – Garawys 5 – Sul y Dioddefaint

Y RHAGARWEINIAD

Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r un ofer ei fwriadau, a dychwelyd at yr Arglwydd, iddo drugarhau wrtho, ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau'n helaeth.

Eseia 55:6–7

Daethom ynghyd yn deulu Duw ym mhresenoldeb ein Tad, i roddi iddo foliant a diolch, i glywed a derbyn ei air, i gyflwyno iddo anghenion yr holl fyd ac i geisio ei ras, fel y gallwn, trwy ei Fab, Iesu Grist, ein rhoi ein hunain i'w wasanaeth.

Dywedodd Iesu: “Y gorchymyn cyntaf yw, ‘Gwrando, O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, a char yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.’ Yr ail yw hwn, ‘Câr dy gymydog fel ti dy hun.’ Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain.”

Distawrwydd.

[Penlinio]

Cyffeswn ein pechodau wrth y Tad a cheisio ei faddeuant a'i dangnefedd.

**Hollalluog a thrugarog Dduw,
yr ydym wedi pechu yn dy erbyn ar feddwl, gair a gweithred.
Nid ydym wedi dy garu â'n holl galon;
nac wedi caru eraill fel y mae Crist yn ein caru ni.
Y mae'n wir ddrwg gennym.
Yn dy drugaredd, maddau inni.
Cynorthwya ni i ddiwygio ein bywydau;
fel y byddwn yn ymhyfrydu yn dy ewyllys
ac yn rhodio yn dy ffyrdd,
er gogoniant i'th enw. Amen.**

Bydded i Dduw ein Tad,
a gymododd y byd ag ef ei hun
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
ac sy'n maddau pechodau pawb sy'n wir edifeiriol,
faddau i ni a'n gwared oddi wrth ein holl bechodau,
a rhoddi inni ras a nerth yr Ysbryd Glân. **Amen.**

[Eymn

[Sefyll]

MOLIANT BOREOL I GRIST

[Sefyll]

Arglwydd, agor ein gwefusau,
A'n genau a fynega dy foliant.

Salvator Mundi

- 1 Iesu, lachawdwr y byd, • tyrd atom yn / dy dru/garedd :
wrthyt ti y disgwylw'n am / ware/digaeth • a / chymorth.
- 2 Trwy dy fywyd a aberthaist ar y Groes • rhydd/heaist • dy / bobl :
wrthyt ti y disgwylw'n am / ware/digaeth • a / chymorth.
- 3 Pan oeddynt ar drengi, • gwaredaist / dy ddis/gyblion :

wrthyt / ti • y dis/gwylw'n • am / gymorth.

- 4 O'th fawr drugaredd • rhyddha ni / o'n cad/wynau :
O / maddau • be/chodau • dy holl / bobl.
- 5 Amlyga dy hun inni yn lachawdwr • a Gwa/redwr / nerthol :
gwared a chymorth ni / fel • y mo/liannwn / di.
- 6 A phan ddeui yn dy ogoniant, • gwna ni'n / un â / thi :
ac yn gyf/rannog • o / fywyd • dy / deyrnas.

**Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab :ac / i'r- / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, •
y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad :
yn oes / oesoedd. / A-/men.**

GWEINIDOGAETH Y GAIR

Salm

[Eistedd]

Salm 130

- 1 O'r dyfnderau y gwaeddais arnat, O ARGLWYDD. Arglwydd, clyw fy llef; bydded dy glustiau'n agored i lef fy ngweddi.
- 2 Os wyt ti, ARGLWYDD, yn cadw cyfrif o gamweddau, pwy, O Arglwydd, a all sefyll?
- 3 Ond y mae gyda thi faddeuant, fel y cei dy ofni.
- 4 Disgwyliaf wrth yr ARGLWYDD; y mae fy enaid yn disgwyl, a gobeithiaf yn ei air;
- 5 y mae fy enaid yn disgwyl wrth yr Arglwydd yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore, yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore.
- 6 O Israel, gobeithia yn yr ARGLWYDD, oherwydd gyda'r ARGLWYDD y mae ffyddlondeb, a chydag ef y mae gwaredigaeth helaeth.
- 7 Ef sydd yn gwaredu Israel oddi wrth ei holl gamweddau.

**Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab :ac / i'r- / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, •
y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad :
yn oes / oesoedd. / A-/men.**

Y DARLLENIAD O'R HEN DESTAMENT

Darlleniad o Ezeziel (37.1-14)

Daeth llaw yr ARGLWYDD arnaf, ac aeth â mi allan trwy ysbryd yr ARGLWYDD a'm gosod yng nghanol dyffryn a oedd yn llawn esgyrn. Aeth â mi'n ôl a blaen o'u hamgylch, a gwelais lawer iawn o esgyrn ar lawr y dyffryn, ac yr oeddent yn sychion iawn. Gofynnodd imi, "Fab dyn, a all yr esgyrn hyn fyw?"

Atebais innau, "O Arglwydd DDUW, ti sy'n gwybod."

Dywedodd wrthyf, "Proffwyda wrth yr esgyrn hyn a dywed wrthynt, 'Esgyrn sychion, clywch air yr ARGLWYDD. Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW wrth yr esgyrn hyn: Wele, fe roddaf fi anadl ynoch, a byddwch fyw. Rhoddaf ewynnau arnoch, paraf i gnawd ddod arnoch a rhoddaf groen drosoch; rhoddaf anadl ynoch, a byddwch fyw. Yna byddwch yn gwybod mai myfi yw'r ARGLWYDD.'"

Proffwydais fel y gorchmynnwyd imi. Ac fel yr oeddwn yn proffwydo daeth sŵn, a hefyd gynnwrf, a daeth yr esgyrn ynghyd, asgwrn at asgwrn. Edrychais, ac yr oedd gewynnau arnynt, a chnawd hefyd, ac yr oedd croen drostynt, ond nid oedd anadl ynddynt.

Yna dywedodd wrthyf, "Proffwyda wrth yr anadl; proffwyda, fab dyn, a dywed wrth yr anadl, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW: O anadl, tyrd o'r pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, iddynt fyw.'"

Proffwydais fel y gorchmynnwyd imi, a daeth anadl iddynt ac aethant yn fyw, a chodi ar eu traed yn fyddin gref iawn.

Yna dywedodd wrthyf, "Fab dyn, holl dŷ Israel yw'r esgyrn hyn. Y maent yn dweud, 'Aeth ein hesgyrn yn sychion, darfu am ein gobraith, ac fe'n torrwyd ymaith.' Felly, proffwyda wrthynt a dywed, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW: O fy mhobl, yr wyf am agor eich beddau a'ch codi ohonynt, ac fe af â chwi'n ôl i dir Israel. Yna, byddwch chwi fy mhobl yn gwybod mai myfi yw'r ARGLWYDD, pan agoraf eich beddau a'ch codi ohonynt. Rhoddaf fy ysbryd ynoch, a byddwch fyw, ac fe'ch gosodaf yn eich gwlad eich hunain. Yna byddwch yn gwybod mai myfi'r ARGLWYDD a lefarodd, ac mai myfi a'i gwnaeth, medd yr ARGLWYDD.'

Dyma air yr Arglwydd. **Diolch a fo i Dduw.**

Distawrwydd.

[EMYN

[Sefyll]]

Y DARLLENIAD O'R TESTAMENT NEWYDD

[Eistedd]

Darlleniad o Rufeiniaid (8.6-11)

Yn wir, y mae bod â'n bryd ar y cnawd yn farwolaeth, ond y mae bod â'n bryd ar yr Ysbryd yn fywyd a heddwch. Oherwydd y mae bod â'n bryd ar y cnawd yn elyniaeth tuag at Dduw; nid yw hynny, ac ni all fod, yn ddarostyngiad i Gyfraith Duw. Ni all y sawl sy'n byw ym myd y cnawd foddhau Duw.

Ond nid ym myd y cnawd yr ydych chiwi, ond yn yr Ysbryd, gan fod Ysbryd Duw yn cartrefu ynoch chiwi. Pwy bynnag sydd heb Ysbryd Crist, nid eiddo Crist ydyw. Ond os yw Crist ynoch chiwi, y mae'r corff yn farw o achos pechod, ond y mae'r Ysbryd yn fywyd ichwi o achos eich cyfiawnhad.

Os yw Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu oddi wrth y meirw yn cartrefu ynoch, bydd yr hwn a gyfododd Grist oddi wrth y meirw yn rhoi bywyd newydd hefyd i'ch cyrff marwol chiwi, trwy ei Ysbryd, sy'n ymgartrefu ynoch chiwi.

Dyma air yr Arglwydd. **Diolch a fo i Dduw.**

Cantigl o'r Efengyl: *Benedictus Dominus Deus Israel*

[Sefyll]]

- 2 Cododd waredigaeth / gadarn • i / ni : yn / nhŷ – / Dafydd • ei / was –
- 3 Fel y llefarodd trwy enau ei bro/ffwydi / sanctaidd : yn yr / oesoedd / a – / fu –
- 4 Gwaredigaeth / rhag • ein ge/lynyon : ac o afael / pawb • sydd yn / ein ca/sáu;
- 5 Fel hyn y cymerodd drugaredd / ar ein • hyn/afiaid : a / chofio • ei gy/famod / sanctaidd,
- 6 Y llw a dyngodd wrth / Abraham • ein / tad : y rhoddai inni gael ein / hachub • o / afael • ge/lynyon,
- 7 A'i addoli yn ddi-ofn mewn sancteiddrwydd / a chyf/iawnder : ger ei fron ef / holl – / ddyddiau • ein / bywyd.
- 8 A thithau, fy mhentyn, gelwir di yn / broffwyd • y Go/ruchaf : oherwydd byddi'n cerdded o flaen yr Arglwydd i / bara/toi ei / lwybrau,
- 9 I roi i'w bobl wybodaeth am / ware/digaeth : trwy fa/ddeuant / eu pe/chodau.
- 10 Hyn yw trugaredd / calon • ein / Duw : fe ddaw â'r wawrddydd / oddi / uchod • i'n / plith,
- 11 I lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch / cysgod / angau :
a chyfeirio ein / traed i / ffordd tang/nefedd.

**Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab : ac / i'r– / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, • y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad :
yn oes / oesoedd. / A–/men.**

Y DARLLENIAD O'R EFENGYL

[Sefyll]

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Ioan (11.1-45)

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Yr oedd rhyw ddyn o'r enw Lasarus yn wael. Yr oedd yn byw ym Methania, pentref Mair a'i chwaer Martha. Mair oedd y ferch a eneiiodd yr Arglwydd ag ennaint, a sychu ei draed â'i gwallt; a'i brawd hi, Lasarus, oedd yn wael. Anfonodd y chwiorydd, felly, neges at Iesu: "Y mae dy gyfaill, syr, yma'n wael."

Pan glywodd Iesu, meddai, "Nid yw'r gwaeledd hwn i fod yn angau i Lasarus, ond yn ogoniant i Dduw; bydd yn gyfrwng i Fab Duw gael ei ogoneddu drwyddo."

Yn awr yr oedd Iesu'n caru Martha a'i chwaer a Lasarus. Ac wedi clywed ei fod ef yn wael, arhosodd am ddau ddiwrnod yn y fan lle'r oedd.

Ac wedyn, dywedodd wrth ei ddisgyblion, "Gadewch inni fynd yn ôl i Jwdea."

"Rabbi," meddai'r disgyblion wrtho, "gynnau yr oedd yr Iddewon yn ceisio dy labyddio. Sut y gelli fynd yn ôl yno?"

Atebodd Iesu: "Onid oes deuddeg awr mewn diwrnod? Os yw rhywun yn cerdded yng ngolau dydd, nid yw'n baglu, oherwydd y mae'n gweld golau'r byd hwn. Ond os yw rhywun yn cerdded yn y nos, y mae'n baglu, am nad oes golau ganddo."

Ar ôl dweud hyn meddai wrthynt, "Y mae ein cyfaill Lasarus yn huno, ond yr wyf yn mynd yno i'w ddeffro."

Dywedodd y disgyblion wrtho, "Arglwydd, os yw'n huno fe gaiff ei wella." Ond at ei farwolaeth ef yr oedd Iesu wedi cyfeirio, a hwythau'n meddwl mai siarad am hun cwsog yr oedd.

Felly dywedodd Iesu wrthynt yn blaen, "Y mae Lasarus wedi marw. Ac er eich mwyn chwi yr wyf yn falch nad oeddwn yno, er mwyn ichwi gredu. Ond gadewch inni fynd ato."

Ac meddai Thomas, a elwir Didymus, wrth ei gyd-ddisgyblion, "Gadewch i ninnau fynd hefyd, i farw gydag ef."

Pan gyrhaeddodd yno, cafodd Iesu fod Lasarus eisoes yn ei fedd ers pedwar diwrnod. Yr oedd Bethania yn ymyl Jerwsalem, ryw dri chilomedr oddi yno. Ac yr oedd llawer o'r Iddewon wedi dod at Martha a Mair i'w cysuro ar golli eu brawd.

Pan glywodd Martha fod Iesu yn dod, aeth i'w gyfarfod; ond eisteddodd Mair yn y tŷ. Dywedodd Martha wrth Iesu, "Pe buasit ti yma, syr, ni buasai fy mrawd wedi marw. A hyd yn oed yn awr, mi wn y rhydd Duw i ti beth bynnag a ofynni ganddo."

Dywedodd Iesu wrthi, "Fe atgyfoda dy frawd."

"Mi wn," meddai Martha wrtho, "y bydd yn atgyfodi yn yr atgyfodiad ar y dydd olaf."

Dywedodd Iesu wrthi, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti'n credu hyn?"

"Ydwyf, Arglwydd," atebodd hithau, "yr wyf fi'n credu mai tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd."

Wedi iddi ddweud hyn, aeth ymaith a galw ei chwaer Mair a dweud wrthi o'r neilltu, "Y mae'r Athro wedi cyrraedd, ac y mae am dy weld." Pan glywodd Mair hyn, cododd ar frys a mynd ato ef.

Nid oedd Iesu wedi dod i mewn i'r pentref eto, ond yr oedd yn dal yn y fan lle'r oedd Martha wedi ei gyfarfod. Pan welodd yr Iddewon, a oedd gyda hi yn y tŷ yn ei chysuro, fod Mair wedi codi ar frys a mynd allan, aethant ar ei hôl gan dybio ei bod hi'n mynd at y bedd, i wylu yno.

A phan ddaeth Mair i'r fan lle'r oedd Iesu, a'i weld, syrthiodd wrth ei draed ac meddai wrtho, "Pe buasit ti yma, syr, ni buasai fy mrawd wedi marw."

Wrth ei gweld hi'n wylu, a'r Iddewon oedd wedi dod gyda hi hwythau'n wylu, cynhyrwyd ysbryd Iesu gan deimlad dwys. "Ble'r ydych wedi ei roi i orwedd?" gofynnodd.

"Tyrd i weld, syr," meddant wrtho. Torrodd Iesu i wylu.

Yna dywedodd yr Iddewon, "Gwelwch gymaint yr oedd yn ei garu ef."

Ond dywedodd rhai ohonynt, "Oni allai hwn, a agorodd lygaid y dall, gadw'r dyn yma hefyd rhag marw?"

Dan deimlad dwys drachefn, daeth Iesu at y bedd. Ogof ydoedd, a maen yn gorwedd ar ei thraws. "Symudwch y maen," meddai Iesu.

A dyma Martha, chwaer y dyn oedd wedi marw, yn dweud wrtho, "Erbyn hyn, syr, y mae'n drewi; y mae yma ers pedwar diwrnod."

"Oni ddywedais wrthynt," meddai Iesu wrthi, "y cait weld gogoniant Duw, dim ond iti gredu?" Felly symudasant y maen.

A chododd Iesu ei lygaid i fyny a dweud, "O Dad, rwy'n diolch i ti am wrando arnaf. Roeddwn i'n gwybod dy fod bob amser yn gwrandao arnaf, ond dywedais hyn o achos y dyrfa sy'n sefyll o gwmpas, er mwyn iddynt gredu mai tydi a'm hanfonodd."

Ac wedi dweud hyn, gwaeddodd â llais uchel, "Lasarus, tyrd allan." Daeth y dyn a fu farw allan, a'i draed a'i ddwylo wedi eu rhwymo â lliainiau, a chadach am ei wyneb.

Dyweddodd Iesu wrthynt, "Datodwch ei rwympau, a gadewch iddo fynd."

Felly daeth llawer o'r Iddewon, y rhai oedd wedi dod at Mair a gweld beth yr oedd Iesu wedi ei wneud, i gredu ynddo.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

Distawrwydd.

MYFYRDOD

Mae'n siŵr bod yna gwestiwn ar ein cyfer i gyd heddiw- ydyn ni bron a chyrraedd y diwedd neu yn edrych ymlaen at ddechrau Newydd? Mae'r Garawys yn dirwyn i ben wrth i ni gyrraedd y 5ed Sul ac fel Cristionogion rydym yn edrych ymlaen tuag at lawenydd dydd Sul y Pasg. Gwir ystyr y Garawys yw paratoi mewn gweddi ar gyfer y llawenydd yma wrth wybod bod Iesu trwy ei Dad Nefol yn medru rhoi i ni i gyd y gobaiith yna am fywyd tragwyddol. Dyma'n wir neges yr Efengyl heddiw wrth i atgyfodiad Lasarus fedru amlygu pŵer Iesu dros farwolaeth i bawb sydd yn clywed ac yn derbyn ei air. Dyma'r un sydd yn mae'n medru cynnig y bywyd tragwyddol gyda geiriau Iesu yn cyhoeddi'r gwirionedd - "Ac fe wyddom ni fod ei dystiolaeth ef mor wir" (Iesu 21:24) a dyma beth a gawn wrth i Iesu gyfleu'r athrawiaeth sy'n rhoi'r newyddion da o lawenydd mawr, y newyddion sydd mor rhyfeddol, sef y newyddion yma am iachawdwriaeth.

A dyma ni heddiw yn clywed am wyrth arbennig wrth I Iesu atgyfodi Lasarus. Rydym yn cwrdd a'r ddwy chwaer sydd yn rhoi eu hymddiriedaeth a'u ffydd y neu ffrind arbennig - Iesu. Roedd y ddwy mor wahanol ond roedd Iesu yn eu caru am eu personoliaeth gyda hyn yn dangos bod Iesu hefyd yn ein caru i gyd. Mae Duw wedi ein creu yn wahanol ac fel Mair, mae i rai y dymuniad i aros wrth draed yr Iesu, i weddïo ac i ddangos y cariad angerddol yna tuag at ein gwaredwr. Cariad a allwn hefyd ddangos tuag at Dduw a'n cymdogion yn enwedig yn ystod yr amser anodd yma. Fe welwn eraill yn debyg i Martha, yn llawn prysurdeb yn gweini ac yn hael ei chyfraniad a'i chroeso. Ac yna mae Lasarus yn marw, wrth ystyried cariad Iesu tuag at y teulu fe ellid meddwl y byddai Iesu yn osgoi hyn ond y gwirionedd yw ei fod wedi gadael Lasarus i farw er mwyn dangos disgleirdeb gogoniant Duw (11:41) Allan o hyn fe ddaw llawenydd perffaith y Pasg a'r atgyfodiad ac yn dangos y pŵer sydd gan Iesu dros farwolaeth. Dangosir hyn wir gariad Duw wrth iddo roi ei unig fab dros bechodau'r byd, y gair a ddaeth yn gnawd a phreswyllo yn ein plith; yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad. (1:14) Ie dyma'r un a ddyrchafwyd i ddangos mai Iesu oed gwir fab y Tad. (3: 14).

Yn wir, mae'r Garawys yn amser da i ni fedru adnewyddu tristwch ein pechod wrth i ni fedru cael ein rhyddhau wrth i ni fod yn unedig a theithio'n agosach at ostyngieddrwydd a duwdod cysegredig Iesu. Mae'n gyfle i ni dynnu'n agosach at lawenydd y Pasg ac at iachawdwriaeth Iesu a ddaeth allan o dristwch Dydd Gwener y Groglith a chreulondeb y groes.

Ac fe welwn trwy gydol naratif yr efengyl y symbolau o'r tywyllwch sydd yn medru dod allan o'n profiadau lle mae gobaiith yn ymddangos yn absennol. Gallwn deimlo mor anobeithiol gyda'r cyfan yn ein herio i gollu ein ffydd ond mae gobaiith yr atgyfodiad yn rhoi yn ôl i ni'r ffydd a'r gobaiith wrth ein dwy allan o'r tywyllwch anhysbys ac yn medru trawsnewid gan roi i ni'r sicrwydd o obaiith yr wrth i ni wybod bod Duw drwy ei bŵer a'i addewid yn medru gorchfygu angau hyn yn oes oesoedd. Amen

DATGAN Y FFYDD

Credo'r Apostolion

[Sefyll]

Credaf yn Nuw, Dad hollgyfoethog,

creawdwr nefoedd a daear.

Credaf yn Iesu Grist, unig Fab Duw, ein Harglwydd ni,

a genhedlwyd o'r Ysbryd Glân,

a aned o Fair Forwyn,

a ddioddefodd dan Pontius Pilat,

a groeshoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd;

disgynnodd i blith y meirw.

Ar y trydydd dydd fe atgyfododd;

esgynnodd i'r nefoedd,

ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,

ac fe ddaw i farnu'r byw a'r meirw.

Credaf yn yr Ysbryd Glân,

yr Eglwys lân gatholig,

cymun y saint,

maddeuant pechodau,

atgyfodiad y corff,

a'r bywyd tragwyddol. Amen.

GWEDDIAU

Hollalluog Dduw a Thirion Dad, dyro i ni wir edifeirwch yn ystod y Garawys yma eleni. Agor ein llygaid i adnabod y gwir amdanom ein hunain, fel wrth gydnabod ein beiau, ein gwendidau a'n methiannau y cawn dderbyn dy faddeuant a chael yn dy gariad galondid i ddechrau o'r newydd, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd, Amen.

O Dduw, 'rwyf Ti'n medru cynnal ein bywyd ni ynot ti; rwyf Ti'n medru ein dysgu i gerdded yn old y lwybrau. Cynorthwya ni i dderbyn dy diriondeb ac ymateb i'th her fel y bydd i eraill dderbyn bywyd gennym ni, yn dy enw. Amen.

Diolchwn i Ti ein Tad am ein gosod mewn teuluoedd, a'n hamgylchynu yn ystod yr amser anodd yma, fe ofynnwn dy fod yn bendithion ein cartrefi, ein cymunedau a'n byd gyda dy fendith.

Gweddiwn am ddoethineb i aros oddi mewn i gylch dy gariad ac am nerth i weithredu dy gariad tuag at ein gilydd, ein hanwylid a phawb sydd mewn angen.

Cyflwynwn i'th ofal grasol gartrefi ein gwlad a chartrefi'r byd. Gweddiwn ar i ti sancteiddio cariad pobl tuag at ei gilydd, a'u harwain i gyflawnder dy gariad sy'n bwrw allan ofn yn ytod y dyddiau blin yma. Rho I ni y nerth I gario ymlaen mewn hyder dy gariad. Amen

Bendithied yr Arglwydd ni a chadwed ni a llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnom a thrugarhaed wrthym. Dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnom, a rhodded i ni dangnefedd. A bendith Duw hollalluog, Y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân a fo yn ein plith ac a thrigo gyda ni yn ystod y Garawys yma ac yn wastad. Amen

Gellir gwahodd y bobl i rannu eu hymbiliau'n gyhoeddus neu i weddio'n dawel.

Gweddi Undeb y Mamau yn ystod lledaeniad y Coronafeirws

Arglwydd cariadus, gweddiwn dros y rhai sy'n dioddef o'r coronafeirws drwy'r byd. Gweddiwn dros bawb sydd wedi colli anwyliaid oherwydd y salwch. Rhoi doethineb i lunwyr polisiau, medrusrwydd i'r ymchwilwyr a chysur i bawb sydd mewn trallod.

Gofynnwn i Ti ddod i'n plith i gyd gyda theimlad gan roi i ni y teimlad o lonyddwch yn ystod y dyddiau nesaf sydd yn llawn ansicrwydd a thrallod.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd a ddangosodd dosturi tuag at yr alltud, derbyniad i'r gwrthodedig a chariad tuag y rhai na ddangoswyd dim cariad tuag atynt. **Amen.**

Dad trugarog,

derbyn y gweddiâu hyn

er mwyn dy Fab,

ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn eofn:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,

sancteiddier dy enw;

deled dy deyrnas;

gwneled dy ewyllys;

megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.

A maddau i ni ein dyledion,

fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.

Ac nac arwain ni i brofedigaeth;

eithr gwared ni rhag drwg.

Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas,

a'r gallu a'r gogoniant,

yn oes oesoedd. Amen.

Colect y Dydd

Drugarocaf Dduw, a waredaist ac a achubaist y byd drwy angau ac atgyfodiad dy Fab Iesu Grist: caniatâ i ni drwy ffydd ynddo ef a ddiodefodd ar y groes, orfoleddu yn nerth ei fuddugoliaeth; trwy Iesu Grist, ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Yr ail golect, am dangnefedd.

O Dduw, awdur tangnefedd a charwr cytundeb,

y mae dy adnabod di yn fywyd tragwyddol,

a'th wasanaethu yn rhyddid perffaith:

amddiffyn ni rhag holl ymosodiadau ein gelynion,

fel, a ninnau'n llwyr ymddiried yn dy noddod,
nad ofnwn allu neb o'n gwrthwynebwy;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y trydydd colect, am ras.

O Arglwydd a nefol Dad, Dduw hollalluog a thragwyddol,
diolchwn iti am ein dwyn yn ddiogel
i ddechrau'r dydd newydd hwn:
amddiffyn ni â'th gadarn allu
fel y'n cedwir ni yn rhydd rhag pob pechod
ac yn ddiogel rhag pob perygl;
a galluoga ni ym mhob peth
i wneud yn unig yr hyn sydd iawn yn dy olwg di;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y DIWEDDGLO

Gras ein Harglwydd Iesu Grist,
a chariad Duw,
a chymdeithas yr Ysbryd Glân
fyddo gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

Bendithied yr Arglwydd ni, cadwed ni rhag drwg
a'n dwyn i fywyd tragwyddol. **Amen.**

[Eymn

[Sefyll]

EMYNAU AWGRYMOG

Ni gawsom y Messia'n rhad

Dy fawr drugaredd, f'Arglwydd Iôn

Ar hyd yr anial unig, yn Dy law

'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod

Daily Prayer 2009 (comprising Additional Orders of Service entitled Morning and Evening Prayer 2009), material from which is included in this service is copyright © Church in Wales Publications 2009.

Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmâu trwy ganiatâd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004 Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.